Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 9th April 2018** at **7.10 pm**

**PRESENT: -** His Worship the Mayor, Councillor Derek Hainge
Deputy Mayor Councillor John Wynn Jones
Councillors Ifan James (Vice-Chairman)
Dylan Fearnley J Martin Luke Tugwell
G O Roberts N Pickavance Elin Walker Jones
Keith Jones Gareth Roberts Huw Wyn Jones

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

**213/17 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors L Day, Medwyn Hughes, Owen Hurcum, Enid Parry, Mair Rowlands, Conor Savage and John Wyn Williams.

**214/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

**215/17 URGENT MATTERS**

The Town Clerk reported on the following matters:-

a) **Welcome to Bangor Signs** – After some delay due to highways regulations this matter was now progressing satisfactorily.
b) **Grass cutting/maintenance** – The Town Clerk had met with Steffan Jones, Head of Maintenance at Gwynedd Council to explore new and innovative ways of combining resources to better serve the inhabitants and visual amenity of the City. The Town Clerk was awaiting full details of Gwynedd's schedule and options available.
c) **Temporary Operatives** – The Town Clerk informed the Committee that job adverts had been circulated for these positions.
d) **20 mph Schemes** – Gwynedd Council had indicated that there were no new plans to extend the current 20mph schemes in the City.
e) **Roundabout Sponsorship** – The Town Clerk had not received a great response from Gwynedd Council on any proposals for roundabout sponsorship. He would continue to pursue this matter.
f) **Car Park Remuneration Scheme** – The Town Clerk informed Members that a Gwynedd Council Scheme related to a 10% levy on all public car parking charges could be raised and income generated could be used by the City Council to benefit social, economic and environmental schemes in the City. There would be a £500 management fee payable to Gwynedd Council. The Town Clerk asked for a view on the proposed scheme.

**RESOLVED**: That the Town Clerk ascertain what income would be generated and that this matter be placed on the agenda of the Planning & Amenities Committee to be held on 23 April 2018.

**216/17 PIER UPDATE**

The Town Clerk reported progress with the Pier Project in terms of work undertaken, problems encountered and timescales for future work.

A financial breakdown of costs incurred, committed funds, estimates and contingency figures were presented for any comments.

Financial approvers under the Financial Regulations had received and accepted a detailed spreadsheet of the financial situation.

**RESOLVED** : that
a) progress on works be noted;
b) the financial report be received and approved; and
c) it be noted that the Financial Approvers under the Council's Financial Regulations had received and accepted full details and would continue to be updated on the financial situation.

**217/17 INDEPENDENT REMUNERATION PANEL FOR WALES - Members Allowances**

The Town Clerk had circulated a written report on the implications for the City Council on the publications of the report of the Independent Remuneration Panel for Wales (IRPW). Town and Community Councils were classified into three groups for Members Allowances' payment and as the City Councils finances exceeded £200,000 it was classified into the highest "Group A".

The following were therefore mandatory:

a) £150 annual allowance (except those in receipt of certain Principal Authority payments);
b) £500 annual allowance for at least one “senior member” appointment and up to five appointments;
c) Authorised travel and overnight costs;
d) Authorised care costs;
e) Authorised financial loss costs;
f) Civic Mayoral allowance up to £1500;
g) Civic Deputy Mayoral Allowance up to £500

Notes

- All payments (b) (f) and (g) would be in addition to the basic £150 allowance
- Any member may opt out
- Payments for expenses on “Approved Duties” only
- The City Council must publicise its list of payment made to Members
- Receipts required for payment (c) (d) and (e)

**RESOLVED**: that

a) The report be received, noted and adopted;
b) The Mayor of the City Council be appointed as the “Senior Member” to received and allowance of £500 in addition to the £1,500 Mayoral Allowance; and
c) The Deputy Mayor be paid £500 p.a. as per the budget already agreed.

**218/17 STRENGTHENING LOCAL GOVERNMENT; Delivering for People – Green Paper**

Members had received details of the public consultation being carried out by Welsh Government on the Green Paper issued and accessible via the Welsh Government’s website. The consultation commenced on 12 March and would close on 12 June 2018. The Paper contained details of proposed merger of the Principal Authorities in Wales with the exception of Powys. For North Wales it proposed merging six authorities into three to include locally the merger of Ynys Mon and Gwynedd Councils.

Members considered the issues relating to the proposed merger and the current ongoing review of Town & Community Councils which would remain separate to the Green Paper Consultations.

**RESOLVED** : that no objections be made to the merger of Ynys Mon and Gwynedd Council, but that it should be recognised that there are many barriers and cultural differences to be overcome by this merger. It should be noted that bigger organisations are not necessarily better or deliver better value services and that some services are better delivered locally, which should enable Town and Community Councils to have more powers and the ability to deliver more local services.

**219/17 MEMBERSHIP OF ONE VOICE WALES 2018/19**

Members considered the renewal of subscription and Membership of One Voice Wales.

**RESOLVED** that membership be renewed for 2018/2019.

**220/17 INVOICES FOR PAYMENT**

**RESOLVED:** It was reported that the invoices as detailed on the schedule totalling £7565.22 had been approved. The invoices were available for any Member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

The Meeting finished at 8.03pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun 9fed o Ebrill 2018** am **7.20 y.h.**

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd D Hainge
Y Dirprwy Faer y Cynghorydd John Wynn Jones
Y Cynghorwyr :- Ifan James (Is-Gadeirydd)

| | | |
|---|---|---|
| Dylan Fearnley | J Martin | Luke Tugwell |
| G O Roberts | N Pickavance | Elin Walker Jones |
| Keith Jones | Gareth Roberts | Huw Wyn Jones |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**213/17 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr L Day, Medwyn Hughes, Owen Hurcum, Enid Parry, Mair Rowlands, Conor Savage a John Wyn Williams.

**214/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**215/17 MATERION BRYS**

Adroddodd Clerc y Dref ar y materion canlynol:-

a) **Arwyddion Croeso i Fangor** – Wedi tipyn o oedi oherwydd rheoliadau priffyrdd, roedd y mater hwn yn mynd yn ei flaen yn foddhaol.
b) **Torri gwair/cynnal a chadw** – Roedd Clerc y Dref wedi cyfarfod â Steffan Jones, Pennaeth Cynnal a Chadw yng Nghyngor Gwynedd i ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o gyfuno adnoddau er mwyn gwasanaethu trigolion ac amwynder y Ddinas yn well. Roedd Clerc y Dref yn disgwyl manylion llawn amserlen Gwynedd a'r opsiynau sydd ar gael.
c) **Gweithwyr Dros Dro** – Hysbysodd Clerc y Dref y Pwyllgor fod y swyddi hyn wedi cael eu hysbysebu.
d) **Cynlluniau 20 mya** - Roedd Cyngor Gwynedd wedi dweud nad oedd cynlluniau newydd i ehangu'r cynlluniau 20mya presennol yn y Ddinas.
e) **Noddi Cylchfan** - Nid oedd Clerc y Dref wedi cael ymateb arbennig gan Gyngor Gwynedd i unrhyw gynigion i noddi cylchfan. Byddai'n parhau i fynd ar ôl y mater hwn.
f) **Cynllun Taliadau Maes Parcio** - Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau y gellid defnyddio Cynllun gan Gyngor Gwynedd sy'n ymwneud â chodi treth o 10% ar ffioedd meysydd parcio cyhoeddus a gallai'r incwm a gynhyrchid gael ei ddefnyddio gan Gyngor y Ddinas er budd cynlluniau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Ddinas. Byddai ffi reoli o £500 yn daladwy i Gyngor Gwynedd. Gofynnodd Clerc y Dref am farn ar y cynllun arfaethedig.

**PENDERFYNWYD**: Gofyn i Glerc y Dref ganfod pa incwm fyddai'n cael ei gynhyrchu a rhoi'r eitem hon ar agenda'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau sydd i'w gynnal ar 23 Ebrill 2018.

**216/17 DIWEDDARIAD AM Y PIER**

Adroddodd Clerc y Dref ar gynnydd Prosiect y Pier o ran y gwaith a wnaed, y problemau a gafwyd a'r amserlenni ar gyfer gwaith pellach.

Cyflwynwyd dadansoddiad ariannol o'r costau, yr arian a ymrwymwyd, amcangyfrifon a ffigyrau wrth gefn a gofynnwyd am sylwadau.

Roedd cymeradwywr ariannol o dan y Rheoliadau Ariannol wedi derbyn a chymeradwyo taenlen fanwl o'r sefyllfa ariannol.

**PENDERFYNWYD** :
a) nodi'r cynnydd ar y gwaith;
b) derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ariannol; a
c) nodi fod y Cymeradwywyr Ariannol o dan Reoliadau Ariannol y Cyngor wedi derbyn a chymeradwyo'r manylion llawn ac y byddent yn parhau i gael eu diweddaru ar y sefyllfa ariannol.

**217/17 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – Lwfansau Aelodau**

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu adroddiad ysgrifenedig ar y goblygiadau i Gyngor y Ddinas yn sgil cyhoeddi adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW). Dosbarthwyd Cynghorau Tref a Chymuned yn dri grŵp ar gyfer talu Lwfansau Aelodau a gan fod cyllid Cyngor y Ddinas yn uwch na £200,000, fe'i rhoddwyd yn y grŵp uchaf, sef "Grŵp A".

Roedd y canlynol yn orfodol felly:

a) Lwfans blynyddol o £150 (heblaw'r rheiny sy'n derbyn taliadau arbennig gan Brif Awdurdod);
b) Lwfans blynyddol o £500 i o leiaf un penodiad "aelod uwch" a hyd at bum penodiad;
c) Costau teithio ac aros dros nos awdurdodedig;
d) Costau gofal awdurdodedig;
e) Costau colled ariannol awdurdodedig;
f) Lwfans Dinesig y Maer hyd at £1500;
g) Lwfans Dinesig y Dirprwy Faer hyd at £500

Nodiadau
- Byddai taliadau (b) (f) a (g) yn ychwanegol at y lwfans sylfaenol o £150
- Gall unrhyw aelod optio allan
- Telir treuliau am "Ddyletswyddau a Gymeradwywyd" yn unig
- Rhaid i Gyngor y Ddinas gyhoeddi rhestr o'r taliadau a wneir i Aelodau
- Mae angen derbynebau ar gyfer taliadau (c) (d) ac (e)

**PENDERFYNWYD**:
a) Derbyn, nodi a mabwysiadu'r adroddiad;
b) Penodi Maer Cyngor y Ddinas yn "Uwch Aelod" i dderbyn lwfans o £500 yn ychwanegol at Lwfans y Maer o £1,500; a
c) Talu £500 y.f. i'r Dirprwy Faer fel yn ôl y gyllideb y cytunwyd arni'n barod.

**218/17 CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL : Cyflawni dros ein Pobl – Papur Gwyrdd**

Roedd yr Aelodau wedi derbyn manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd ac sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 12 Mawrth a bydd yn cau ar 12 Mehefin 2018. Roedd y Papur yn cynnwys manylion cynnig i uno'r Prif Awdurdodau yng Nghymru ac eithrio Powys. Yng Ngogledd Cymru, cynigir uno chwe awdurdod yn dri i gynnwys yn lleol uno Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

Bu'r Aelodau'n ystyried y materion sy'n gysylltiedig â'r uno arfaethedig a'r adolygiad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd o Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n aros ar wahân i Ymgynghoriadau'r Papur Gwyrdd.

**PENDERFYNWYD** : peidio â gwrthwynebu uno Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, ond y dylid sylweddoli fod nifer o rwystrau a gwahaniaethau diwylliannol i'w goresgyn os digwydd hyn. Dylid nodi nad yw cyrff mwy o reidrwydd yn well nac yn cyflwyno gwasanaethau o fwy o werth. Mae rhai gwasanaethau'n well o gael eu cyflwyno'n lleol, a dylid galluogi Cynghorau Tref a Chymuned i gael mwy o bwerau a'r gallu i gynnig mwy o wasanaethau lleol.

**219/17 AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2018/19**

Bu'r Aelodau'n ystyried adnewyddu tanysgrifiad ac Aelodaeth o Un Llais Cymru.

**PENDERFYNWYD** adnewyddu'r aelodaeth ar gyfer 2018/2019.

**220/17 ANFONEBAU I'W TALU**

**PENDERFYNWYD :** Cymeradwywyd yr anfonebau fel y'u rhestrwyd yn dod i gyfanswm o £7565.22. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.03 p.m.